Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Cynllun Gweithredu: Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Mawrhydi y Parc (HMYOI Parc)

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu: 28 Gorffennaf 2022

Ymateb i Archwiliad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi: 28 Mawrth – 8 Ebrill 2022

Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 20 Gorffennaf 2022

## RHAGARWEINIAD

Mae Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Prawf EM ar gyfer Cymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy'n craffu ar yr amodau ar gyfer trin carcharorion a throseddwyr. Maent yn adrodd ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac effeithiolrwydd gwaith y gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Mewn ymateb i'r adroddiad, rhaid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi / Y Weinyddiaeth Gyfiawnder lunio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu'n cadarnhau a gytunwyd ar yr argymhellion, a gytunwyd arnynt yn rhannol, ynteu a ydynt heb gael eu cytuno (gweler y categorïau isod). Os cytunir ar argymhelliad neu os cytunir arno'n rhannol, mae'r cynlluniau gweithredu yn darparu camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r camau gweithredu'n glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol gyda'r perchennog, ac mae amserlenni pob cam wedi'u nodi'n glir. Anfonir cynlluniau gweithredu at Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'u cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Bydd y cynnydd mewn perthynas â'r gwaith gweithredu a chyflawni'r cynlluniau gweithredu yn cael ei fonitro ac yn cael ei adrodd.

| Term | Diffiniad | Sylwadau ychwanegol |
|---|---|---|
| Cytunwyd | Cytunwyd ar yr holl argymhelliad, mae modd ei gyflawni ac mae'n fforddiadwy. | Dylai'r ymateb esbonio'n glir sut caiff yr argymhelliad ei gyflawni, ynghyd â'r amserlenni. Dylai camau gweithredu fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol), gymaint ag y bo modd. Dylai'r camau gweithredu fod yn ddigon penodol i gael eu holrhain ar gyfer cynnydd. |
| Cytunwyd yn Rhannol | Dim ond ar ran o'r argymhelliad y cytunwyd, mae'n gyraeddadwy, yn fforddiadwy ac fe fydd yn cael ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd na allwn weithredu'r argymhelliad cyfan oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir pa ran o'r argymhelliad fydd yn cael ei weithredu, ynghyd â chamau CAMPUS, a rhaid iddo gael ei olrhain ar gyfer cynnydd.<br>**Rhaid** cael esboniad ynghylch pam na allwn gytuno'n llawn ar yr argymhelliad – rhaid i hyn nodi'n glir ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd sy'n gyfrifol am hyn. |
| Heb Gytuno | Ni chytunwyd ar yr argymhelliad ac ni chaiff ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir y rhesymau pam ein bod wedi dewis yr opsiwn hwn.<br>**Rhaid** cael esboniad ynghylch pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad – rhaid i hyn nodi'n glir ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd sy'n gyfrifol am hyn. |

CYNLLUN GWEITHREDU: ADRODDIAD AROLYGIAETH CARCHARDAI EI MAWRHYDI

SEFYDLIAD: SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC EI MAWRHYDI Y PARC

| 1. Rhif Argymhelliad | 2. Argymhelliad | 3. Cytunwyd/ Cytunwyd yn Rhannol/ Heb Gytuno | 4. Ymateb Camau a Gymerwyd/a Gynlluniwyd | 5. Perchennog Cyfrifol | 6. Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Prif bryderon ac argymhellion** | | | | |
| 7.1 | Prif bryder (1.41): Nid oedd gan yr uned weithiwr cymdeithasol penodol am gyfnod estynedig. Roedd hyn wedi lleihau'r gefnogaeth a'r eiriolaeth a oedd ar gael i'r gyfran gynyddol fawr o blant a oedd yng ngofal eu hawdurdod lleol neu a oedd yn ymwneud rhywfaint â'r gwasanaethau cymdeithasol. Nid oedd gan reolwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant ffynhonnell o | Cytunwyd | Bydd y Gwasanaethau Ieuenctid yn y Ddalfa yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i ganfod ffrwd gyllido briodol a chynaliadwy ar gyfer y swydd Gweithiwr Cymdeithasol Dynodedig.<br><br>Bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd a Disgrifiad Swydd priodol ar gyfer y ddarpariaeth yn HMYOI Parc yn cael eu cydlynu gan arweinwyr diogelu Gwasanaethau Ieuenctid yn y Ddalfa rhwng y safle a'r awdurdod lleol, i sicrhau ei fod yn darparu'r lefel briodol o gefnogaeth i blant sydd ei hangen a ffynhonnell o arbenigedd i reolwyr gyfeirio ati ar y safle. Ar ôl cadarnhau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'r Disgrifiad Swydd, bydd y broses o recriwtio i'r swydd yn dechrau. | Gwasanaeth Ieuenctid<br><br>Gwasanaeth Ieuenctid | Gorffennaf 2022<br><br>Rhagfyr 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | arbenigedd i gyfeirio ati ar y safle.<br>**Prif argymhelliad: Dylai'r uned fod â gweithiwr cymdeithasol penodol ar y safle.**<br>(I'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa) | | | | |
| 7.2 | Prif bryder (1.42): Roedd plentyn sâl iawn a oedd angen bod yn yr ysbyty wedi cael ei roi yn y Parc a'i wahanu am 14 diwrnod yn 2021 cyn trefnu ei symud i'r ysbyty.<br>**Prif argymhelliad: Ni ddylid anfon plant sydd angen mynd i'r ysbyty i'r carchar fel man diogel.**<br>(I'r Weinyddiaeth Gyfiawnder) | Cytunwyd | Ym *Mhapur Gwyn Diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl*, ymrwymodd y llywodraeth i roi terfyn ar ddefnyddio carchar fel 'lle diogel' dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983). Ym mis Ionawr 2022, sefydlodd partneriaid iechyd a chyfiawnder weithgor trawsadrannol i ddeall yn well y materion sy'n arwain at ddefnyddio carchardai a datblygu atebion i roi terfyn ar hyn yn ddiogel. Bydd ymateb trawsadrannol a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn cael eu cytuno erbyn mis Medi 2022. | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Medi 2022 |
| 7.3 | Prif bryder (1.43): Nid oedd goruchwyliaeth na chyfrifoldeb dros waith cydraddoldeb ac | Cytunwyd | Mae uwch reolwr preswyl wedi cael ei benodi i oruchwylio'r holl waith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi cael ei ddatblygu gyda'r Tîm Cymorth Ieuenctid a Lleiafrifoedd Ethnig i gefnogi | Cyfarwyddwr | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | amrywiaeth yn y Parc ac roedd gwaith dadansoddi data yn dal yn gyfyngedig. Roedd y plant roedden ni wedi siarad â nhw yn teimlo bod y staff yn eu cefnogi ac roedd eu hanghenion yn cael eu diwallu, ond gallai bylchau yn y ddarpariaeth achosi risgiau.<br>**Prif argymhelliad: Dylai arweinwyr oruchwylio gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol bob amser a dylid craffu'n drylwyr ar ddata, gan ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig.**<br>(I'r cyfarwyddwr) | | goruchwyliaeth, llywodraethu, ymgynghori a hyfforddiant annibynnol.<br><br>Bydd prosesau casglu data ac adrodd ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn partneriaeth ag arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Gwasanaethau Ieuenctid yn y Ddalfa yn cael eu hadolygu i sicrhau bod yr holl Nodweddion Gwarchodedig yn cael eu hystyried a'u harchwilio yn y cyfarfod misol. Ar ben hynny, bydd adborth o'r fforymau 'Llais y Plentyn', lle trafodir Nodweddion Gwarchodedig, yn cael eu cynnwys yn y cyfarfod diogelwch misol sy'n cynnwys Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Bydd y cynllun gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn y cyfarfod misol ar ôl craffu ar y data. Bydd adroddiadau rheoli a chamau gweithredu sy'n deillio o'r gwaith craffu yn cael eu cyhoeddi i'r rhanddeiliaid perthnasol, gan sicrhau bod yr arweinwyr yn goruchwylio gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol. | | Rhagfyr 2022 |
| 7.4 | Prif bryder (1.44): Nid oedd y gefnogaeth ar gyfer y nifer cynyddol o blant gyda dedfrydau amhenodol | Cytunwyd yn Rhannol | Cytunwyd yn rhannol ar yr argymhelliad hwn, gan y bydd angen darparu cymorth i'r rhai sy'n bwrw dedfrydau amhenodol neu dymor hir yn ystod y cam mwyaf priodol yn eu dedfryd ac efallai na fydd o reidrwydd yn cael ei ddarparu yn HMYOI Parc. | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | neu dymor hir wedi'i datblygu'n ddigonol ac roedd yn gyfyngedig o'i gymharu â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Roedd mwy o blant nag yn yr arolygiad blaenorol yn cael eu cadw ar remand neu'n bwrw dedfrydau am lofruddiaeth neu ymgais i lofruddio. **Prif argymhelliad: Dylid cael ystod briodol o gefnogaeth i gwrdd â risgiau ac anghenion plant sy'n bwrw dedfrydau amhenodol neu hir.** (I'r cyfarwyddwr) | | Bydd HMYOI Parc yn datblygu'r ystod o gymorth sydd ar gael i blant sy'n bwrw dedfrydau amhenodol neu dymor hir i sicrhau bod y risg a'r angen yn cael eu diwallu'n briodol.<br><br>Bydd gwaith cefnogi pontio ar gyfer plant sy'n symud i'r ystad dros 18 oed yn y tymor hir yn cael ei ehangu i gynnwys ymwybyddiaeth o'r ymyriadau perthnasol sydd ar gael yn y safle pontio. | | |
| | **Argymhellion** | | | | |
| 7.5 | Argymhelliad (3.18): Ni ddylid cynnal gwiriadau arsylwadol ar blant ar adegau rhagweladwy. (I'r cyfarwyddwr) | Cytunwyd yn Rhannol | Cytunwyd yn rhannol ar yr argymhelliad hwn gan ei bod yn anodd iawn gwneud amlder yr arsylwadau'n llai rhagweladwy lle mae'r bechgyn yn cael eu harsylwi bedair gwaith yr awr. Dim ond lle mae'r risg o hunan-niweidio ar ei uchaf y caiff yr amlder hwnnw ei fabwysiadu. Mae'n gofyn am arsylwadau rheolaidd i leihau'r amser lle gall bachgen niweidio ei hun pan nad yw'n cael ei arsylwi, sy'n golygu mai | Cyfarwyddwr | Medi 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dim ond ychydig funudau y gall y cyfnodau amrywio. Mae amlder yr arsylwadau'n seiliedig ar risgiau'r person. Trafodir y rhain mewn adolygiadau amlddisgyblaethol ac fe'u cofnodir ar y map gofal.<br><br>Bydd canllawiau wedi'u diweddaru yn cael eu rhoi i'r holl staff yn amlinellu'r arferion gofynnol o ran amlder ac elfennau annisgwyl arsylwadau mewn perthynas â gweithdrefnau Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm.<br><br>Bydd Rheolwyr Gweithredol yn cynnal archwiliadau ansawdd ACCT dyddiol. Bydd y gwiriadau hyn yn cynnwys pa mor aml y cynhelir arsylwadau ac a ydynt yn rhagweladwy. Os canfyddir problemau gydag arferion aelodau unigol o staff, cyflwynir cyngor, arweiniad, hyfforddiant a mentora lle bo angen.<br><br>Bydd yr Uwch Reolwr yn sicrhau ansawdd yr holl ddogfennau ACCT bob wythnos. Bydd y gwiriadau hyn yn cynnwys y lefel ymarfer ofynnol fel y disgrifir yng nghanllawiau ACCT F6. Tynnir sylw at faterion a nodwyd drwy'r strwythur rheolaeth llinell a chyflwynir cyngor, arweiniad, hyfforddi a mentora lle bo angen. | | |
| 7.6 | Argymhelliad (3.39): Dylai rheolwyr sicrhau bod ôl-drafodaethau yn dilyn ataliaeth yn ddealladwy ac yn ddefnyddiol i blant. (I'r cyfarwyddwr) | Cytunwyd | Bydd uwch reolwr diogelu yn adolygu'r broses a'r ddogfen ôl-drafodaeth. Bydd yr adolygiad yn cynnwys barn plant a staff, i hwyluso ymgysylltu gwell a defnyddio gwybodaeth sy'n deillio o broses ôl-drafodaeth Lleihau a Rheoli Ataliaeth Gorfforol (LlRhAC). | Cyfarwyddwr | Medi 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd rheolwr LlRhAC yn sicrhau ansawdd 10% o'r holl ddogfennau ôl-drafodaeth bob mis, gan sicrhau bod ymgysylltiad ystyrlon yn y broses a bod yr ôl-drafodaethau yn ddealladwy ac yn ddefnyddiol i'r plant, i wella sicrwydd y broses LlRhAC. | | |
| 7.7 | Argymhelliad (4.8):<br>Dylai ffenestri fod yn rhydd o raffiti a baw, a dylid gwneud gwaith cynnal a chadw ar fentiau aer sydd wedi torri.<br>(I'r cyfarwyddwr) | Cytunwyd | Bydd amserlen y cytunwyd arni ar gyfer adnewyddu ffenestri'r celloedd yn cael ei datblygu. Bydd yr amserlen yn cynnwys tynnu ffenestri'r celloedd, cyfanswm o 48. Adnewyddu'r ffenestri, gan gynnwys, yn ôl yr angen, disodli'r Perspex, atgyweirio/newid mecanweithiau'r fentiau, glanhau a phaentio'r ffenestr ac o'i chwmpas ac ailosod y ffenestr. | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2022 |
| 7.8 | Argymhelliad (4.16):<br>Dylai'r ymgynghoriad gynnwys barn pob plentyn a dylid mynd i'r afael â chamau gweithredu mewn modd amserol.<br>(I'r cyfarwyddwr) | Cytunwyd | Mae uwch reolwr preswyl wedi cael ei benodi i oruchwylio'r holl waith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi cael ei ddatblygu gyda'r Tîm Cymorth Ieuenctid a Lleiafrifoedd Ethnig i gefnogi goruchwyliaeth, llywodraethu, ymgynghori a hyfforddiant annibynnol. Bydd EYST yn sicrhau ansawdd prosesau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn annibynnol bob chwarter.<br><br>Cynhelir fforymau 'Llais y Plentyn' bob mis lle bydd nodweddion amddiffynnol yn rhan o drafodaethau. Bydd adborth a chamau gweithredu o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu trafod yn y cyfarfod diogelwch misol lle bydd y cynllun gweithredu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu holrhain a'u bod yn cael sylw o fewn amserlenni priodol. | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.9 | Argymhelliad (4.56): Dylai plant gael mynediad at ystod ehangach o ymyriadau therapiwtig, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd.<br>(I Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi/Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa a'r darparwr gofal iechyd) | Cytunwyd yn Rhannol | Cytunwyd yn rhannol ar yr argymhelliad hwn gan nad yw'n rhan o gontract cyfredol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi y Parc. Fodd bynnag, bydd gwasanaeth gofal sylfaenol y carchardai yn parhau i asesu anghenion pob plentyn a, lle bo angen ymyriadau therapiwtig ychwanegol, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd, gwneir atgyfeiriad i'r awdurdod lleol/bwrdd iechyd i fynd i'r afael â'u hanghenion.<br><br>Bydd darpariaeth iechyd yn cael ei darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o 15 Rhagfyr 2022 ymlaen. Bydd eu gwasanaeth therapi iaith a lleferydd yn ymateb i atgyfeiriadau uniongyrchol ar gyfer asesiadau unigol ac yn darparu cyngor a chefnogaeth i Gynlluniau Gwella Gofal Sylfaenol a phlant, a bydd yr holl bartïon cymorth perthnasol yn rheoli unrhyw nam a aseswyd.<br><br>Bydd y tîm Gofal Iechyd Meddwl Sylfaenol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu ystod ehangach o ymyriadau therapiwtig drwy hyrwyddo mynediad at weithgareddau sy'n debygol o gefnogi plant. | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Tag Morgannwg | Mawrth 2023 |
| 7.10 | Argymhelliad (4.57): Dylai FACTS gyfrannu at y system cofnodion clinigol yn y carchar i sicrhau bod un cofnod cynhwysfawr o asesiadau, gofal a thriniaeth ar gyfer plant yn eu gofal.<br>(I'r cyfarwyddwr a'r darparwr gofal iechyd) | Cytunwyd yn Rhannol | Cytunwyd yn rhannol ar yr argymhelliad hwn gan nad yw'n rhan o gontract cyfredol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi y Parc. Fodd bynnag, mae staff Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio SystmOne i wella cofnodion y Gwasanaeth Trin ac Ymgynghori Fforensig i'r Glasoed (FACTS). Ar ben hynny, mae mwy o fynediad at y systemau yn cael ei ystyried gan mai ychydig o ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd darpariaeth iechyd yn cael ei darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o 15 Rhagfyr 2022 ymlaen. Yna, bydd y system cofnodion clinigol a fabwysiedir yn cael ei defnyddio fel y prif gofnod clinigol a bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chofnodi ar gofnod meddygol electronig y plentyn. | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Tag Morgannwg | Mawrth 2023 |
| 7.11 | Argymhelliad (4.72): Dylai plant gael mynediad at driniaethau lleddfu poen yn brydlon dros y penwythnos a thros nos.<br>(I'r cyfarwyddwr a'r darparwr gofal iechyd) | Cytunwyd | Bydd staff gofal iechyd HMYOI Parc yn sicrhau bod triniaethau lleddfu poen yn cael eu trefnu a'u darparu'n brydlon gan staff iechyd a'u bod yn cael eu hwyluso gan staff gweithredol gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ôl yr angen nes bydd y ddarpariaeth yn cael ei throsglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ym mis Rhagfyr 2022.<br><br>O 15 Rhagfyr 2022 ymlaen, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn parhau i ddarparu mynediad prydlon at driniaethau lleddfu poen drwy sicrhau bod lefelau staffio digonol dros nos ac yn ystod y penwythnosau. | Cyfarwyddwr<br><br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Tag Morgannwg | Wedi'i gwblhau<br><br>Rhagfyr 2022 |

| **Argymhellion** | **Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Mawrhydi y Parc ( HMYOI Parc )** |
|---|---|
| Cytunwyd | 7 |
| Cytunwyd yn Rhannol | 4 |
| Heb Gytuno | 0 |
| **Cyfanswm** | 11 |